# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 3 Tachwedd 2020

Amser: 09.30 - 09.50

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Jayne Bryant AS (Cadeirydd)<br>Llyr Gruffydd AS<br>Andrew RT Davies AS |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Clerc)<br>Daniel Collier (Dirprwy Glerc)<br>Enrico Carpanini (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Huw Williams (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Nododd y Pwyllgor y byddai Llyr Gruffydd yn dirprwyo ar ran Rhun Ap Iorwerth ar gyfer Eitem 2. Fodd bynnag, byddai Rhun Ap Iorwerth yn bresennol ar gyfer Eitem 3.

## 2 Trafod adroddiad gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i)

2.1 Ystyriodd y Pwyllgor ei adroddiad yn unol â'i swyddogaethau a nodir o dan Reol Sefydlog 22.9 a pharagraff 8.1 o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn

Aelodau o'r Senedd, mewn perthynas â chwyn a wnaed yn erbyn Dai Lloyd AS, a chytunodd arno.

2.2 Ar ôl ystyried adroddiad y Comisiynydd Dros Dro, cytunodd y Pwyllgor fod Dai Lloyd AS wedi torri'r rheol a nodir ym mharagraff 10 o'r Cod Ymddygiad, wrth weithredu fel Cadeirydd Grŵp Plaid Cymru.

2.3 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen cymryd dim camau pellach.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion ei gyfarfod blaenorol.

3.2 Bu'r Pwyllgor hefyd yn trafod adroddiad gan y Comisiynydd Safonau Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 22.1(1).